**Y Pwyllgor Cynaliadwyedd**

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

29 Ebrill 2010

Annwyl gyfaill,

Mae Pwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal ymchwiliad i bolisïau Cynllunio yng Nghymru.

Cylch gorchwyl yr ymchwiliad yw:

Edrych ar ba mor llwyddiannus y mae polisïau cynllunio defnydd tir, yn lleol ac yn genedlaethol, wrth gyflawni prif amcanion polisi Llywodraeth Cymru e.e. newid hinsawdd, tai fforddiadwy, adfywio/datblygu economaidd.

Bydd yr ymchwiliad yn canolbwyntio ar y meysydd pwnc canlynol:

- Y defnydd o bolisïau a chanllawiau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wrth ddatblygu cynlluniau datblygu lleol – byddai hyn yn cynnwys Llywodraeth y DU a'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith e.e.
    - pa mor hawdd/anodd yw hi i ddehongli'r polisïau a'r canllawiau lefel uwch i mewn i bolisïau ar lefel leol;
    - sut y mae'r broses o lunio cynlluniau datblygu lleol yn adweithio i bolisïau a chanllawiau newydd;
    - pa arweiniad y mae polisi/canllawiau yn eu rhoi ar gymodi mathau o ddefnydd tir sy'n cystadlu, fel ynni adnewyddadwy ac ansawdd tirwedd, tai fforddiadwy a meini prawf cynllunio/pryderon cymdeithasol, newid hinsawdd a thwf economaidd;

- Y defnydd o bolisïau Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a chynllun datblygu lleol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio e.e.
    - pa bwysoliad (os o gwbl) y dylid ei roi i bolisïau sy'n cystadlu pan benderfynir ar geisiadau cynllunio;
    - pa bwysoliad y dylid ei roi i safbwyntiau'r cyhoedd os byddant yn groes i bolisïau lleol a chenedlaethol;
    - sut y mae swyddogion cynllunio yn cynghori pwyllgorau cynllunio.

Hoffai'r Pwyllgor alw am dystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer yr ymchwiliad hwn i bolisïau Cynllunio a gofyn i chi amlinellu barn eich sefydliad ar y cwestiynau sydd yn yr holiadur amgaeedig.

Cyflwynwch eich tystiolaeth ysgrifenedig erbyn **11 Mehefin 2010** i Virginia Hawkins:

Sustainability.comm@Wales.gsi.gov.uk

neu

Y Pwyllgor Cynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Mae rhagor o wybodaeth am ymchwiliad y Pwyllgor i'w chael ar y wefan:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third-assem/bus-committees-third-sc-home.htm

Yn gywir,

**Mike German**
**Cadeirydd y Pwyllgor Cynaliadwyedd**

**Pwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Ymchwiliad i bolisïau Cynllunio: Ymgynghoriad**

**Noder:** Ni fydd pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad o angenrheidrwydd yn berthnasol i'r holl gyrff a holir. Atebwch y cwestiynau sydd yn eich barn chi'n fwyaf perthnasol.

1. Sut y mae prif amcanion polisi Llywodraeth Cymru'n cael eu hadlewyrchu mewn polisïau/canllawiau cenedlaethol a lleol, a phenderfyniadau cynllunio lleol? A ydych yn credu bod y dull hwn o weithredu yn llwyddiannus?

2. Pa mor llwyddiannus yw'r polisïau/canllawiau cynllunio presennol wrth helpu cynllunwyr i gymodi galwadau sy'n cystadlu e.e. ynni adnewyddadwy yn erbyn ansawdd tirwedd, a thwf economaidd yn erbyn newid hinsawdd.

3. A oes enghreifftiau o arfer da mewn gwledydd eraill a rhannau eraill o'r DU y gallem ddysgu gwersi ganddynt?

**Dalier sylw:**

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i bwyllgor. O ganlyniad, gall eich ymateb ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth atodol i adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth y mae'n ystyried sy'n wybodaeth bersonol.

Pe digwydd cais am wybodaeth a gyflwynir o dan ddeddfwriaeth y DG, efallai y bydd yn angenrheidiol datgelu'r wybodaeth yr ydych yn ei darparu. Gall hyn gynnwys gwybodaeth sydd wedi'i thynnu allan gan y Cynulliad Cenedlaethol rhag ei chyhoeddi.

Os ydych chi'n darparu unrhyw wybodaeth, ar wahân i wybodaeth bersonol, yr ydych chi'n teimlo nad yw'n addas ei datgelu'n gyhoeddus, dylech chi nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi, a rhoi rhesymau i gefnogi hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.